Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

## Adroddiad Blynyddol 2024-25

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee

Mae'r adroddiad blynyddol hwn gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cynnwys cyfeiriadau at reolau a Chyfarwyddiadau Ymarfer a wnaed, gwaith is-bwyllgorau ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd, yn ystod cyfnod yr adroddiad; cylch gorchwyl, aelodaeth a nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y Pwyllgor.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **4**

Cylch Gorchwyl 6

Cefndir, Gwneud Rheolau a Strategaeth y Pwyllgor 6

Aelodaeth 8

Taliadau a Buddiannau Aelodau 9

Cyfarfodydd 9

Is-bwyllgorau a Gweithgorau 9

Rheolau Newydd, Offerynnau Statudol a Diweddariadau i Gyfarwyddyd Ymarfer 11

Ymgynghoriadau 12

Busnes y Dyfodol 14

Cysylltu 15



## Cyflwyniad

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Fel y gŵyr darllenwyr rheolaidd, Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil Cymru a Lloegr (DHCJ) sy'n cadeirio'r Pwyllgor o ddydd i ddydd ar ran Meistr y Rholiau.

Ar 1 Tachwedd 2025, roedd yn anrhydedd cael fy mhenodi'n DHCJ, ac edrychaf ymlaen yn fawr at arwain y Pwyllgor pwysig hwn. Rwy'n hynod ddiolchgar i Carl Poole am ei groeso cynnes a'i gefnogaeth helaeth wrth i mi ddysgu'r grefft yn ogystal â'r ysgrifenyddiaeth hynod effeithiol sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor mor ddiwyd.  Mae cefnogaeth lwyr yr aelodau a swyddogion eraill, sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd mor hael i gynnal a datblygu'r rheolau sy'n sail i system cyfiawnder sifil hygyrch, deg ac effeithlon, wedi fy nghalonogi.

Wrth gwrs, rhaid imi ddechrau drwy roi teyrnged i'm rhagflaenydd, yr Arglwydd Ustus Colin Birss, sydd bellach yn Ganghellor yr Uchel Lys. Gwasanaethodd Syr Colin y Pwyllgor gyda rhagoriaeth am flynyddoedd lawer, yn gyntaf fel aelod sy'n Farnwr yn yr Uchel Lys, ac yn ddiweddarach, yn dilyn ei ddyrchafiad i'r Llys Apêl ac i rôl DHCJ yn 2021, fel Cadeirydd de facto. O'r herwydd, mae ei gyfraniad i'r Pwyllgor ac i gyfiawnder sifil yn ehangach yn anfesuradwy. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd fy niolch personol dwfn iddo am ei drosglwyddiad caredig ac ystyriol a'i barodrwydd parhaus i fod yn seinfwrdd pan fo angen.

Ymgymerwyd â'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ystod ei gyfnod stiwardiaeth, ac am gyfnod eithriadol o brysur oedd hwnnw. Mewn araith yng Nghymdeithas y Cyfreithwyr ym mis Gorffennaf, dywedodd "*Os mai MR yw capten y llong, yna gellid ystyried mai'r DHCJ yw'r prif beiriannydd, yn baeddu eich dwylo, yn gwneud iddi fynd a'i chadw i fynd*." Wrth ichi ddarllen yr adroddiad hwn, yr wyf yn siŵr y byddwch yn gyfarwydd â'r teimlad hwnnw ac yn gwerthfawrogi ehangder ac arwyddocâd y gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf yn benodol. Mae pob darn

ohono'n bwysig, ac mae pob un ohonom sy'n ymwneud â chyfiawnder sifil yn ddyledus i'r rhai a gyfrannodd. Mae eu hymdrechion wedi bod yn rhagorol.


Hoffwn ddiolch hefyd i'w Anrhydedd y Barnwr Nigel Bird a Dr Anja Lansbergen-Mills, a gwblhaodd eu cyfnod yn y swydd ac a adawodd y Pwyllgor yn ystod yr haf. Gellir gweld eu sylwadau ymadawol yng nghofnodion cyfarfod mis Gorffennaf, ond digon yw dweud, bod pob un ohonynt yn aelod eithriadol o'r tîm, a bod eu mewnwelediadau a'u hymrwymiad yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Yn gynharach yn y cylch adrodd, ym mis Rhagfyr 2024, ymunodd Campbell Forsyth â'r Pwyllgor fel un o'r cyfreithwyr sy'n aelodau, gan olynu Virginia Jones. Ymunodd Kelly Stricklin-Coutinho fel aelod sy'n fargyfreithiwr ym mis Gorffennaf 2025, yn dilyn ymadawiad Anja. Yn fwyaf diweddar, ym mis Medi 2025, ymunodd Ei Hanrhydedd y Barnwr Emma Kelly, y Barnwr Sifil Dynodedig ar gyfer Birmingham a chyn Farnwr Rhanbarth, fel yr aelod newydd sy'n Farnwr Cylchdaith, gan olynu'r Barnwr Bird. Er bod y penodiadau hyn y tu allan i'r cyfnod adrodd ffurfiol, mae amseru'r cyhoeddi yn golygu ei bod yn briodol eu cydnabod a'u croesawu. Mae pob un ohonynt wedi ymgymryd â gwaith y Pwyllgor gyda mewnwelediad a brwdfrydedd ac mae eisoes yn amlwg faint o ased yw pob un ohonynt i'r Pwyllgor.

Un maes gwaith sylweddol eleni, yr oeddwn yn ymwneud yn uniongyrchol ag ef, oedd cadeirio'r is-bwyllgor a oedd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun peilot newydd i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau a ddefnyddir gan bartïon mewn achosion llys. Fel rhan o ymdrechion ehangach i hyrwyddo'r egwyddor o gyfiawnder agored yn y llysoedd sifil, cyflwynwyd y Cynllun Peilot Mynediad i Ddogfennau Cyhoeddus. Ers 1 Ionawr 2026, mae'n gweithredu yn y Llys Masnachol, Llys Masnachol Cylchdaith Llundain Adran Mainc y Brenin, a'r Rhestr Ariannol (Llys Masnachol a'r Adran Siawnsri). Bydd y cynllun peilot yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2027 ac mae'n gam cadarnhaol tuag at gefnogi mwy o dryloywder a dealltwriaeth o'r llysoedd a'r achosion a glywir ynddynt.

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo mynediad at gyfiawnder, ac rwy'n awyddus i adeiladu ar yr egwyddorion a ddatblygwyd drwy fy rôl ar Fwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored yr Arglwyddes Brif Ustus, wrth i mi fwrw ymlaen â'm cyfrifoldebau fel DHCJ. Rwy'n arbennig o awyddus i godi proffil ac amlygrwydd gwaith y CPRC - gan gynnwys drwy gynnal cyfarfodydd y tu allan i Lundain. Byddaf hefyd yn edrych ar sut gellid cydlynu fy ymweliadau ledled Cymru a Lloegr fel DHCJ gyda gweithgarwch Pwyllgorau, gan helpu i gynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth o'n gwaith sy'n unigryw o bwysig.

Edrychaf ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod agored blynyddol ym mis Mai, a gynhelir yn Birmingham yn unol â'r dyhead hwnnw!



**Y Gwir Anrhydeddus Arglwyddes Ustus Cockerill, DBE**

**Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil**

## Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn gorff annibynnol, statudol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ei swyddogaeth yw gwneud rheolau'r llys sy'n llywodraethu'r ymarfer a'r weithdrefn ynghylch y canlynol:

- Adran Sifil y Llys Apêl;
- Yr Uchel Lys; a'r
- Llys Sirol.

Dylid arfer ei bŵer i wneud rheolau gyda golwg ar sicrhau bod y system cyfiawnder sifil yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon a bod y rheolau'n syml ac wedi'u mynegi'n syml. Mae'r cylch gorchwyl yn deillio o Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llysoedd 2003, Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Deddf Troseddu a Llysoedd 2013 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014).

## Cefndir, Gwneud Rheolau a Strategaeth y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ym 1997 i wneud rheolau llys (Rheolau Trefniadaeth Sifil) i ddisodli Rheolau y Goruchaf Lys a Rheolau'r Llys Sirol blaenorol.

Nod y pwyllgor yw darparu rheolau llys yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn adroddiad yr Arglwydd Woolf ym 1996 "Mynediad at Gyfiawnder".

Cyn gwneud unrhyw reolau, mae'r pwyllgor yn:

- rhwymedig i ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae o'r farn eu bod yn briodol a
- chyfarfod (oni bai nad yw'n hwylus i wneud hynny).

Mae rheolau'n cael eu gwneud yn ddeddfwriaeth drwy Offeryn Statudol. Nod y pwyllgor yw llofnodi Offerynnau Statudol ym mis Mehefin a mis Rhagfyr bob blwyddyn, i ddod i rym ym mis Hydref ac ym mis Ebrill yn y drefn honno. Ategir y Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) gan Gyfarwyddiadau Ymarfer (PD), ac er nad yw'r rhain yn gyfrifoldeb uniongyrchol i'r pwyllgor, mae'r pwyllgor yn ymwneud â'u drafftio oherwydd eu perthynas agos â'r rheolau.

Fodd bynnag, gellir diweddaru Offerynnau Statudol a Chyfarwyddiadau Ymarfer (yn ogystal â Phrotocolau Cyn Gweithredu) drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r pŵer i wneud Rheolau Trefniadaeth Sifil i'w arfer gyda'r bwriad o sicrhau bod y system cyfiawnder sifil yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon. Mae strategaeth y pwyllgor yn cyflawni ei swyddogaeth statudol a'r Prif Amcan sef y dylai'r rheolau fod yn 'syml a chael eu mynegi'n syml'.

Mae'r pwyllgor, a'r tîm o swyddogion a chyfreithwyr sy'n cefnogi'r pwyllgor, yn adnodd cyfyngedig, ac yn aml dan bwysau mawr. Felly, mae angen gallu blaenoriaethu'r gwaith y gofynnir i'r pwyllgor ei wneud.

Bydd angen i awgrymiadau ar gyfer diwygiadau i'w hystyried y tu allan i'r tri maes blaenoriaeth canlynol naill ai gael eu dal yn ôl i'w cynnwys mewn adolygiad priodol neu basio prawf eithaf trylwyr i'w ystyried ar sail brys, maint yr anghyfiawnder (posibl), rheidrwydd gwleidyddol a maint anawsterau a wynebir yn ymarferol.

Mae'r blaenoriaethau canlynol yn berthnasol:

- **Deddfwriaeth (lle bo angen)**

  Yn aml, mae angen diwygio'r rheolau sy'n cael eu gyrru gan ddeddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth arall yn unol ag amserlen sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y pwyllgor neu reolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Fodd bynnag, dylai'r eitemau hyn gael blaenoriaeth lle bynnag y bo angen; ond weithiau ni fydd deddfwriaeth sy'n effeithio ar gyfiawnder sifil yn gofyn am ddiwygio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.

- **Moderneiddio**

  Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at ymgorffori'r rheolau atodlenni ym mhrif gorff y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Pan wnaethpwyd y Rheolau Trefniadaeth Sifil ym 1998, nid oedd holl Reolau'r Goruchaf Lys (RSC) a Rheolau'r Llys Sirol (CCR) wedi'u trawsnewid yn Rheolau Trefniadaeth Sifil. Rhoddwyd gweddill Rheolau'r Goruchaf Lys a Rheolau'r Llysoedd Sirol mewn 'atodlenni' i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil i'w hymgorffori'n ddiweddarach, os oedd angen, ac felly fe'u galwyd yn Rheolau Atodlenni. Mae ymgorffori'r rheolau hyn sy'n weddill yn parhau i fod yn nodwedd reolaidd o waith y pwyllgor lle bynnag y bo modd. Yn 2021, sefydlwyd prosiect "symleiddio" newydd (dan nawdd Is-bwyllgor Adran 2(7)) gyda'r nod o ategu a chyflymu'r gwaith o gyflawni'r flaenoriaeth hon. Yn 2025, cwblhaodd y Pwyllgor ei dasg o adolygu a diweddaru Rhannau 1 i 30 y Rheolau Trefniadaeth Sifil, sy'n cynrychioli rhannau generig y rheolau yn fras. Mae'r diwygiadau hyn a diwygiadau canlyniadol yn darparu ar gyfer lleihau hyd cyffredinol y CPR, symleiddio'r iaith, gwella eglurder a darparu niwtraliaeth o ran rhywedd. Mae hyn wedi cyd-daro â datblygiadau o ran sefydlu'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC) a chreu'r OPR, sydd wedi rhoi cyfle i'r ddau bwyllgor weithio'n agosach. Mae egwyddor gyffredinol symleiddio yn dal yn rhan weithredol o'n prif waith.

- **Adolygiadau Cynhwysfawr**

  Bydd y rhain yn cael eu harwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond cytunir ar bynciau gyda'r pwyllgor ac yn ddelfrydol byddant yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder i'r farnwriaeth, ymarferwyr ac ymgyfreithwyr. Byddant yn canolbwyntio ar Ran penodol o CPR neu bwnc, a byddant yn cynnwys adolygiad llawn o ddrafftio'r Rhan honno, gan geisio symleiddio iaith a gweithdrefnau, a dileu dyblygu (rhwng y rheol a'r cyfarwyddyd ymarfer, er enghraifft).

## Aelodaeth

Nodir rheolau aelodaeth pwyllgorau yn adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997. Yn gyffredinol, mae cyfnod yn y swydd yn para o leiaf tair blynedd ac uchafswm o chwe blynedd. Penodir pob aelod anfarnwrol, yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Comisiwn Penodiadau Cyhoeddus ac fe'u hysbysebir o bryd i'w gilydd mewn ffordd agored a thryloyw. Rheolir y broses gan dîm penodiadau cyhoeddus annibynnol. Gall unrhyw un (sy'n gymwys) wneud cais i fod yn aelod o'r pwyllgor. Does dim tâl am y rôl. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein drwy'r ddolen "Apply for a public appointment - GOV.UK" yma: https://www.gov.uk/public-appointments

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (oni nodir yn wahanol), roedd y pwyllgor yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Pennaeth Cyfiawnder Sifil, Meistr y Rholiau, Syr Geoffrey Vos, Ex Officio
- Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil, Arglwydd Ustus Birss, Ex Officio
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Pepperall, Aelod sy'n Farnwr yr Uchel Lys
- Yr Anrhydeddus Mr Ustus Trower, Aelod sy'n Farnwr yr Uchel Lys (Adran Siawnsri)
- Meistr Sullivan, Aelod Meistr yr Uchel Lys (Adran Mainc y Brenin)
- Ei Anrhydedd y Barnwr Bird, Aelod sy'n Farnwr Cylchdaith (tan fis Awst 2025)
- Ei Hanrhydedd y Barnwr Emma Kelly (o fis Medi 2025 ymlaen)
- Ei Anrhydedd y Barnwr Hywel James, Aelod sy'n Farnwr yng Nghymru
- Y Barnwr Rhanbarth Clarke, Aelod sy'n Farnwr Rhanbarth
- Y Barnwr Rhanbarth Johnson, Aelod sy'n Farnwr Rhanbarth
- Dr Anja Lansbergen-Mills, Aelod sy'n Fargyfreithiwr (tan fis Gorffennaf 2025)
- Kelly Stricklin-Coutinho, Aelod sy'n Fargyfreithiwr (o fis Gorffennaf 2025)
- Ms Isabel Hitching CB, Aelod sy'n Fargyfreithiwr
- Mr Tom Montagu-Smith CB, Aelod sy'n Fargyfreithiwr
- Mr David Marshall, Aelod sy'n Gyfreithiwr
- Mr Ben Roe, Aelod sy'n Gyfreithiwr
- Mr Campbell Forsyth, Aelod sy'n Gyfreithiwr (o fis Rhagfyr 2024)
- Mr Ian Curtis-Nye, Aelod Cyngor Lleyg/Materion Defnyddwyr
- Ms Elisabetta Sciallis, Aelod Cyngor Lleyg/Materion Defnyddwyr

## Taliadau a Buddiannau Aelodau

Nid yw'r Cadeirydd a'r aelodau yn cael eu talu am eu gwasanaeth ar y pwyllgor.

Caniateir i aelodau'r pwyllgor gyflwyno hawliadau rhesymol am dreuliau teithio a chynhaliaeth, a weinyddir gan yr Ysgrifenyddiaeth ac a delir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder; mae hawliadau teithio a delir yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (Ebrill 2024 i Fawrth 2025) yn gyfanswm o £1339.00. Mae hyn yn cynnwys £644.10 ar gyfer y cyfnod adrodd hwn a thaliadau hanesyddol gwerth £694.90 ar gyfer treuliau teithio a gafwyd y tu allan i'r cyfnod hwn.

Pan gynhelir cyfarfodydd pwyllgor wyneb yn wyneb, mae'r Weinyddiaeth yn darparu lluniaeth ar gyfer aelodau yn lle hawliadau cynhaliaeth. Ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, roedd hyn yn gyfanswm o £1242.70

Mae cofrestr o fuddiannau aelodau, ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, yn cael ei chadw gan yr Ysgrifenyddiaeth. Os hoffech ei gweld, cysylltwch â'r Ysgrifennydd yn y modd a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Cyfarfodydd

Cyfarfu'r pwyllgor naw gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Ni chynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Awst 2024, mis Medi 2024 na mis Ionawr 2025, fel sy'n arferol. Cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Mai 2024 oedd y cyfarfod agored blynyddol, pan fu aelodau o'r cyhoedd a phartïon â diddordeb yn arsylwi'r pwyllgor yn ei sesiwn. Cynhaliwyd hyn mewn fformat hybrid, gydag arsylwyr yn mynychu o bell drwy dechnoleg fideogynadledda. Darparwyd cwestiynau cyhoeddus ymlaen llaw i'r pwyllgor eu hateb yn ystod elfen fforwm agored y cyfarfod.

## Is-bwyllgorau a Gweithgorau

Mae'r pwyllgor yn sefydlu is-bwyllgorau a gweithgorau i ystyried manylion y rheolau sy'n ymwneud â phrosiectau penodol a/neu gynigion eraill. Mae llawer o'r gwaith cychwynnol yn cael ei wneud fel hyn. Yn gyffredinol, mae tua saith is-bwyllgor sefydlog ac oddeutu 10 is-bwyllgor ad-hoc (penodol i brosiect) yn gweithredu ar unrhyw un adeg. Maent yn cynnwys (wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor):

**Is-bwyllgorau sefydlog:**

- **Llysoedd Busnes ac Eiddo** - i ystyried materion sy'n ymwneud â'r Llysoedd Busnes ac Eiddo.
- **Ffurflenni Llys** - i ystyried newidiadau i ffurflenni llys newydd.
- **Costau** - i ystyried materion yn ymwneud â chostau.

- **Meddiannu Tai** - i gadw golwg gyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â Thai a Meddiant. Mae gwaith parhaus penodol yn cynnwys diwygiadau deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Hawliau Rhentwyr.

- **Bylchau** - ystyried bylchau posibl yn y CPR fel y tynnwyd sylw atynt gan y farnwriaeth/dyfarniadau ac adolygu ceisiadau a dderbynnir gan unrhyw barti â diddordeb, gan gynnwys ymholiadau cyffredinol a dderbynnir drwy'r ysgrifenyddiaeth, i benderfynu ar addasrwydd o ran a yw'n haeddu ystyriaeth lawn gan y pwyllgor.

- **Gwasanaeth** - Ystyried materion sy'n ymwneud â gwasanaeth, oddi mewn a'r tu allan i awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

- **Symleiddio (Adran 2(7))** - adolygu'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, mewn rhaglen fesul cam er mwyn lleihau a symleiddio'r rheolau, yn unol â dyletswydd statudol y pwyllgor dan a.2(7) Deddf Trefniadaeth Sifil 1997 i wneud rheolau sy'n syml ac wedi'u mynegi'n syml.

**Is-bwyllgorau eraill:**

- **Mynediad at ddogfennau llys gan bobl nad ydynt yn bartïon** - i ystyried atgyfeiriad yr Is-bwyllgor Bylchau ynghylch mynediad at ddogfennau llys gan bobl nad ydynt yn bartïon (a sbardunwyd gan ddyfarniad y Goruchaf Lys yn Cape Intermediate Holdings Ltd v Dring (ar gyfer ac ar ran Fforwm Grwpiau Cymorth i Ddioddefwyr Asbestos y DU) [2019] UKSC 38

- **Gorchmynion Atal Sifil (CRO)** - i ystyried pwyntiau a godwyd gan Ganghellor yr Uchel Lys ynghylch gweithredu CROs.

- **Deunydd Caeedig** - i weithredu argymhellion a wnaed yn Adroddiad Annibynnol 2021 ar weithredu gweithdrefn deunyddiau caeedig (CMP) o dan Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013, gan Syr Duncan Ouseley.

- **Iawndal a Hawliadau am Arian (diwygiadau ar-lein)** - creu rheolau i gefnogi'r gwasanaethau diwygiedig ar-lein (yn bennaf y porth Hawliadau am Arian Sifil Ar-lein PD 51R, a'r porth Hawliadau am Iawndal PD 51ZB).

- **E-weithio** - i adolygu a drafftio diwygiadau ar gyfer darpariaethau newydd i dreialu PD51O a gwaith cysylltiedig arall.

- **Adolygiad Barnwrol** - i ystyried newidiadau Adolygiad Barnwrol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adolygiad annibynnol yr Arglwydd Banner KC.

- **Porth Hawliadau am Anafiadau Swyddogol (Chwiplach)** - i ystyried diwygiadau i'r rheolau sy'n sail i weithredu'r gwasanaeth ar-lein, mewn ymateb i faterion yn ymarferol.

- **Atgyfeiriadau Achosion Parôl** - i ddrafftio diwygiadau i Reolau Trefniadaeth Sifil o ganlyniad i'r mesur atgyfeirio parôl i'r Uchel Lys sydd wedi'i gynnwys yn adrannau 61 a 62 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024.

- **Cyllidebu Costau Symlach** - i ystyried argymhellion Adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil ar Gostau.

- **Cynllun Peilot Cyfryngu Hawliadau Bychain** - yn amodol ar bolisi'r llywodraeth, i ddrafftio'r newidiadau CPR sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer cyfryngu integredig ar gyfer achosion hawliadau bychain yn y llys sirol.

## Rheolau Newydd, Offerynnau Statudol a Diweddariadau i Gyfarwyddyd Ymarfer

Eleni, mae dau Offeryn Statudol, 17 Diweddariad i Gyfarwyddyd Ymarfer (166 i 182), a chyfres o ddiwygiadau Protocol Cyn Gweithredu (PAP) wedi cael eu gwneud.

Mae'r amrywiol offerynnau diweddaru yn gwneud cyfres o newidiadau ar draws y Rheolau Trefniadaeth Sifil a gellir eu darllen yn llawn ar-lein yn Civil Procedure Rules (justice.gov.uk). Fodd bynnag, mae'r rhestr ganlynol yn rhoi blas ar y diwygiadau, sy'n amrywio o ran maint o newidiadau bach ond pwysig i ddiwygiadau ar raddfa fwy a chynlluniau peilot i brofi mentrau newydd. Gyda'i gilydd, maent yn cadw'r rheolau'n gyfredol ac yn berthnasol:

- Cyflwynwyd cynllun peilot newydd (PD51ZE) ar gyfer atgyfeirio rhai achosion sifil yn awtomatig i sesiwn gyfryngu awr o hyd am ddim; diwygiwyd y cynllun peilot ymhellach hefyd i ddarparu mwy o eglurder ac effeithlonrwydd.

- Cafodd cyfnod gweithredol y Cynllun Peilot Penderfyniadau ar Hawliadau Bychain ar Bapur (PD51ZC) ei ymestyn er mwyn caniatáu amser ar gyfer adolygiad.

- Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, gwnaed newidiadau amrywiol, drwy gydol y flwyddyn, i'r Cynllun Peilot Hawliadau Arian Sifil Ar-lein (PD51R) a'r Cynllun Peilot Porth Hawliadau Iawndal (PD51ZB) i ddatblygu'r gwasanaethau ar-lein pwysig hyn ymhellach. Darparwyd diwygiadau ar gyfer nifer o nodweddion newydd, fel y rheini sy'n ymwneud â chychwyn, ymateb a bwrw ymlaen â hawliadau a ddyrennir i'r trac canolradd a'r amldrac ac i alluogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain i wneud ceisiadau cyffredinol ar-lein. Cynyddwyd y terfyn hawlio ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n defnyddio PD51R hefyd a chyflwynwyd diwygiadau er mwyn gallu cychwyn hawliadau yn Gymraeg hefyd.

- Diwygiadau i gyflwyno cynllun peilot o dan PD51ZF ar gyfer llysoedd sifil yn ystod cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu rhag Cam-drin Domestig fesul cam, gan gysoni gweithdrefnau â rheolau perthnasol y llys teulu lle bo hynny'n bosibl.

- Cyfres o ddiwygiadau i Brif Amcan CPR yn Rhan 1 ac i rannau eraill, i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR).

- Gwnaethpwyd amrywiol ddiwygiadau ynghylch y diffiniad o "farnwr", ar draws y CPR i sicrhau cysondeb iaith.

- Diweddarwyd y terfynau amser ar gyfer apelio o'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys, yn dilyn gwaith ar y cyd â'r Goruchaf Lys ac eraill.

- Cyflwynwyd Rhan 68 newydd i amlinellu gweithdrefnau newydd mewn perthynas â Chyfraith yr UE a Ddargedwir.

- Diweddariadau i Ran 81 Rhybudd Dirmyg.

- Diwygio Gwritiau a Gwarantau Meddiannu, gan gynnwys egluro ac ailstrwythuro'r drefn Hysbysiad Troi Allan, gyda ffurflenni penodedig newydd.

- Ailysgrifennu'n llawn atebion interim syml Rhan 25 a diogelwch ar gyfer costau, diddymu PDs 25A a 25B, a chyflwyno gorchmynion enghreifftiol wedi'u diweddaru ar gyfer chwilio,

delweddu a rhewi gwaharddebau. Gallwch ddarllen mwy am hyn o dan yr adran symleiddio (yn nes ymlaen yn yr adroddiad).

- Cyflwyno PD49H ar gyfer Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024, sy’n nodi gweithdrefnau ar gyfer gorfodi cyfraith defnyddwyr gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

- Lansio dau Gyfarwyddyd Ymarfer peilot ar gyfer symleiddio cyllidebu costau. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni Cynsail newydd, a ddaw i rym ym mis Ebrill 2025. Roedd y gwaith hwn yn dilyn adroddiad pwysig gan y Cyngor Cyfiawnder Sifil ar Gostau. Nod y diwygiadau yw symleiddio’r broses drwy gyflwyno gweithdrefnau cyllidebu costau mwy cymesur.

- Roedd Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i reolau gweithdrefnol newydd ddod â mesurau i rym mewn perthynas ag achosion SLAPP (Ymgyfreitha Strategol yn Erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd). Rhagwelir y bydd yn dechrau yn nes ymlaen yn 2025.

- Cyflwynwyd diwygiadau i Ran 23 i egluro’r hawl i wneud cais i osod dyfarniad o’r neilltu er mwyn dileu amwysedd, yn dilyn profiadau ymarferol. Bwriad y diwygiadau yw egluro nad yw partïon mewn achosion yn colli eu hawl i wneud cais i osod dyfarniad o’r neilltu, lle cawsant gyfle yn flaenorol i gyflwyno sylwadau lle gwahoddir y llys i fwrw ymlaen heb wrandawiad.

Mae rhagor o fanylion ar gael hefyd ar wefan CPR a gwefannau deddfwriaeth drwy ddilyn y dolenni canlynol: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil https://www.legislation.gov.uk/.

## Ymgynghoriadau

Mae gan y pwyllgor y pŵer i gynnal ymgynghoriadau pan ofynnir am dystiolaeth/barn wrth iddynt ystyried rheolau’r llys sy’n llywodraethu’r ymarfer a’r drefniadaeth mewn achosion sifil.

Mae’r pwyllgor yn ymgynghori, fel y mae’n ystyried sy’n briodol i’r rheolau neu’r diwygiadau i’r rheolau dan sylw, mewn nifer o ffyrdd ag amrywiol ffurfioldeb iddynt. Gall hyn gynnwys gohebiaeth benodol â chyrff yr ystyrir ei bod yn briodol ymgynghori â nhw; cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau sydd â diddordeb yng ngwaith is-bwyllgorau sy’n adolygu agweddau penodol ar y rheolau; gwahodd ac adolygu awgrymiadau a sylwadau a geisir gan ei aelodau o blith y grwpiau y daw pob un ohonynt; a gwahodd ac adolygu awgrymiadau gan Adrannau'r Llywodraeth perthnasol ac awdurdodau eraill y mae rheolau trefniadaeth sifil yn effeithio arnynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd yr ymgynghoriadau cyhoeddus canlynol:

- **Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)**
  Deilliodd y gwaith hwn o ddyfarniad y Llys Apêl yn James Churchill -v- Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, lle penderfynwyd y gallai’r llys ‘atal achos yn gyfreithlon ar gyfer, neu orchymyn, y partïon i gymryd rhan mewn proses datrys anghydfod na chynhelir mewn llys ar yr amod nad yw’r gorchymyn a wnaed yn amharu ar union hanfod hawl yr hawlydd i symud ymlaen i wrandawiad barnwrol, a’i fod yn gymesur â chyflawni’r nod cyfreithlon o setlo’r anghydfod yn deg, yn gyflym ac am gost resymol.’
  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 17 Ebrill 2024 a 28 Mai 2024.

- **Hysbysiad Apelydd: diwygiadau arfaethedig i Reol Trefniadaeth Sifil 52.12(3)**
  Gofynnwyd am farn ar egwyddor a geiriad arfaethedig y diwygiad drafft i reol 52.12(3) (hysbysiad apelydd) ar ôl i'r Is-bwyllgor Bylchau ei ystyried.
  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 1 Chwefror 2025 a 21 Chwefror 2025.

## Symleiddio'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR)

Yn 2021, sefydlwyd y prosiect "symleiddio" (o dan nawdd Is-bwyllgor Adran 2(7)). Roedd yn cynnig diwygiadau i symleiddio'r rheolau, gyda diwygiadau'n canolbwyntio ar ddrafftio diwygiadau yn hytrach na newidiadau sylweddol. Fodd bynnag, roedd rhai diwygiadau'n adleoli neu'n hepgor darpariaethau'n gyfan gwbl.

Yn 2025, daeth y dasg o adolygu a diweddaru Rhannau 1 i 30 y Rheolau Trefniadaeth Sifil (rhannau generig y rheolau yn fras) i ben yn naturiol gan ei fod yn cyd-daro â sefydlu'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC) a datblygu'r OPR. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'r ddau bwyllgor weithio'n agosach. Serch hynny, mae egwyddor gyffredinol symleiddio yn parhau i fod yn rhan weithredol o'n prif waith.

Y darn mwyaf arwyddocaol o waith a wnaed gan yr is-bwyllgor symleiddio yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd yr adolygiad o Ran 25 (Atebion Interim a Diogelwch ar gyfer Costau).

Cynhaliodd y pwyllgor ymgynghoriad rhwng 18 Rhagfyr 2023 a 9 Chwefror 2024 (roedd hefyd yn cynnwys diwygiad arfaethedig i Ran 4 Rheolau Trefniadaeth Sifil (Ffurflenni) er mwyn gallu cyfeirio'n benodol at Orchmynion Enghreifftiol). Soniwyd am hyn (yn yr adran symleiddio) yn yr adroddiad blaenorol. Diolchir eto i bawb a gyflwynodd ymatebion, a ystyriwyd yn ofalus iawn.

Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd Rheolau Trefniadaeth Sifil (Diwygiad) 2025 a'r 179fed Diweddariad i'r Cyfarwyddyd Ymarfer, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2025.

Mae diwygiadau Rhan 25 yn cynnwys Rhan 25 wedi'i hailysgrifennu'n llwyr, ar ôl cael ei hailstrwythuro'n drefn fwy rhesymegol a dirymu'r Cyfarwyddiadau Ymarfer 25A a 25B ategol (mae rhai darpariaethau wedi'u hymgorffori yn y rheolau diwygiedig). Gwnaed newidiadau canlyniadol hefyd i Ran 4 (Ffurflenni Llys), Rhan 52 (Apeliadau) a Rhan 74 (Gorfodi Dyfarniadau mewn Awdurdodaethau Gwahanol).

Ar ben hynny, cyflwynwyd cyfres o dri gorchymyn enghreifftiol diwygiedig, gyda'r bwriad o ddarparu gwell cysondeb a chynnwys gwelliannau diweddaru cyffredinol. Dyma'r mathau newydd o orchmynion enghreifftiol:

- Gorchymyn Chwilio a Delweddu Enghreifftiol
- Gorchymyn Enghreifftiol ar gyfer Gwaharddebau Priodoldeb a Rhewi
- Gorchymyn Enghreifftiol ar gyfer Gwaharddeb Rhewi

Mae pob ffurflen ar gael yn rhwydd, ar-lein fel rhan o gyfres bwrpasol newydd o dudalennau ffurflenni o fewn y rheolau ar-lein: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/forms

## Busnes y Dyfodol

Mae rhaglen waith y pwyllgor a'r diwygiadau dilynol i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu gyrru gan lawer o flaenoriaethau sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd. Nid yw bob amser yn bosibl nodi, ymhell ymlaen llaw, y pynciau craidd i'w hystyried. Yn aml, mae angen deddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth arall yn unol ag amserlen sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y pwyllgor neu reolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Bydd pynciau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder i'r farnwriaeth, ymarferwyr, ymgyfreithwyr a defnyddwyr eraill yn cael sylw drwyddi draw. Mae materion fel brys, maint yr anghyfiawnder (posibl), rheidrwydd gwleidyddol a maint yr anawsterau a wynebir ymarferol, i gyd yn rhan o'r broses i reoli'r rhaglen waith yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Lle bynnag y bo modd, bydd diwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn dilyn y ddau ddyddiad cychwyn cyffredin, sef mis Hydref a mis Ebrill. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd a brys rhywfaint o'r gwaith, mae diweddariadau ychwanegol i'w disgwyl.

O'r herwydd, mae rhaglen yr agenda'n cael ei hadolygu'n gyson ac mae'n bosibl y bydd yn newid. Fodd bynnag, disgwylir i'r pynciau sy'n debygol o yrru'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod gynnwys cymysgedd o brosiectau sydd eisoes wedi dechrau, ochr yn ochr â meysydd gwaith newydd; gyda'i gilydd maent yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):

- Gweithgarwch busnes fel arfer yn deillio o:
  - atgyfeiriadau i'r Is-bwyllgor Bylchau a'r Is-bwyllgor Ffurflenni
  - eitemau sy'n deillio o bob rhan o'r Llywodraeth ac sy'n gysylltiedig â Deddfwriaeth Sylfaenol
- Gorchmynion Atal Sifil
- Ymestyn Costau Sefydlog Adferadwy (FRC) - adolygiad ôl-weithredu
- Rhaglen Diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, yn benodol, y gwasanaethau diwygiedig ar-lein sy'n cael eu llywodraethu gan PD51R (Hawliadau Arian Sifil Ar-lein) a PD 51ZB (Cynllun Peilot Hawliadau Iawndal)
- Cyfryngu integredig ar gyfer achosion hawliadau bychain yn y llys sirol
- Gwaith cyswllt a gwaith sy'n gorgyffwrdd â'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein
- PDs peilot i'w hadolygu, fel y cynllun peilot Penderfyniadau ar Hawliadau Bychain ar Bapur (PD51ZC)
  a'r Cynllun Peilot E-weithio (PD51O)
- Protocolau Cyn Gweithredu a Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod
- Argymhellion o Adroddiad Gorfodi'r Cyngor Cyfiawnder Sifil
- Argymhellion o Adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil ar Alluedd Meddyliol
- Cyllidebu Costau Symlach
- Gwasanaeth ac E-lofnodion

- Ymgyfreitha Strategol yn Erbyn Cyfranogiad Cyhoeddus (SLAPP) ac adolygiad ôl-weithredu
- Gweithdrefnau'r Ganolfan Gorfodi Traffig
- Yr iaith Gymraeg

## Cysylltu

Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau am waith y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil at:

Carl Poole
Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil
Ministry of Justice
7th Floor
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

DX 152380 WESTMINSTER 8

E-bost CPRC@justice.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2025

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at yr Ysgrifenyddiaeth yn CPRC@justice.gov.uk.